**Jenny Randerson AM/AC**
Minister for Culture, Sport and the Welsh Language
Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Our ref:/Ein cyf: SF/JR/00051/03

Paul Loveluck CBE JP
President
National Museums & Galleries of Wales
Cathays Park
CARDIFF
CF10 3NP

February 2003

**NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES REMIT LETTER 2003-04**

This letter sets out the Assembly Government's remit for the National Museums & Galleries of Wales (NMGW) for the financial year 2003-04, and is intended to inform the content and development of the NMGW's Operational and Corporate Plans.

**1. BUDGETS**

1.1. The NMGW's funding from the Assembly and from other public bodies for 2003-04 to 2005-06 is detailed in the tables below. Payment of grant in aid is subject to compliance with the Museum's Management Statement and Financial Memorandum.

**Running Costs**

| **£000s** | **Plans 2003-04** | **Indicative Plans 2004-05** | **Indicative Plans 2005-06** |
|---|---|---|---|
| Running Costs | 17,882 | 17,882 | 17,882 |
| Revenue Income | -958 | -958 | -958 |

1.2. Your running costs budget for 2003-04 takes account of some of the costs required to meet NMGW's pay remit. The running costs figure includes £2,040,000 (90%) of the £2,267,000 needed to meet the increased pay remit costs in 2003-04. NMGW will be required to meet the additional £227,000 from within its existing budgets.

1.3. The Museum has re-appraised its revenue income forecasts for future years and I will consider reflecting this in the final budget figures.

1.4  Any additional funding for the pay remit in future years, over and above that shown in the table above, will be considered in future annual Budget Planning Rounds.  Such bids will be considered on the basis of the same level of contribution as that which has been agreed for 2003-04.  Bids to reduce this contribution will not be considered.

1.5   Ministers have decided that the Chairs and Council Members of the Cultural ASPBs should be remunerated.  I will write to you separately about this. In order for this to progress, the Royal Charter bodies will need to seek revised Charters, and those bodies that are registered charities will also need to seek the agreement of the Charity Commission.  The Museum will, of course, have our assistance and support for this process.

**Culture Fund – National Museum & Galleries of Wales Allocation**

| £000s | Plans 2003-04 | Indicative Plans 2004-05 | Indicative Plans 2005-06 |
|---|---|---|---|
| Gross capital expenditure | 18,200 | 17,600 | 18,400 |
| Capital Receipts | -14,550 | -14,550 | -14,550 |
| **Net Assembly capital contribution** | **3,650** | **3,050** | **3,850** |

(i) Gross capital and capital receipts figures may change following the Museum’s reappraisal of these forecasts. Please note that the Museum’s net capital contribution from the Welsh Assembly Government will be unaffected by any changes;

(ii) The Assembly Government's capital contribution of £3.650 million in 2003-04 is made up as follows :-
- Compensation payment for the sale of WIMM :  £1.5 million
- Specimen Purchase Grant :  £1.075 million
- Capital :  £0.775 million
- Nantgarw Collections Centre extension :  £0.3 million

(iii) The Assembly Government's indicative capital contribution of £3.050 million in 2004-05 is made up as follows :-
- Specimen Purchase Grant :  £1.075 million
- Capital :  £0.775 million
- Nantgarw Collections Centre extension :  £1.2 million

(iv) The Assembly Government's indicative capital contribution of £3.850 million in 2005-06  is made up as follows :-
- Specimen Purchase Grant :  £1.075 million
- Capital :  £0.775 million
- Nantgarw Collections Centre extension :  £2.0 million

**Culture Fund – Depreciation/Cost of Capital**

| £000s | Plans 2003-04 | Indicative Plans 2004-05 | Indicative Plans 2005-06 |
|---|---|---|---|
| Depreciation/Cost of Capital | 6,472 | 7,035 | 7,140 |

(i) The non-cash costs of depreciation and cost of capital move into the Assembly's Departmental Expenditure Limit (DEL) from 1 April 2003.

(ii) HM Treasury has recently changed the basis of calculation of the cost of capital. We will inform you of the revised totals

1.6. The figures for 2004-05 and 2005-06 are indicative figures, as I am not able to pre-empt any future decisions which may be made by the Assembly Government in future Budget Planning Rounds.

1.7. The Museum's monthly grant in aid request should detail separate figures for each of the categories detailed in the above tables. In the event that the Museum's receipt figures contain any element of a running cost or capital receipt then this should also be identified separately.

**PRIORITIES**

1.8 In addition to meeting on-going commitments detailed in NMGW's Corporate Plan for 2003-04 - 2005-06 and achieving related outcomes, my specific priorities for the Museum are as follows:

- Submit a robust project plan for developing the Nantgarw Collections Centre as part of your Operational Plan for 2003-04. £300,000 of Assembly funding will be made available for this project in 2003-04. Your project plan should show the added value of the Assembly's £3.5 million total investment, even if funding from other sources is not realised.

- Complete the capital projects at Big Pit and MWWI on time and within budget.

- Continue to develop the Swansea Waterfront Museum project, concentrating on raising funding from project partners and the private sector.

- Develop proposals for the future display of the Museum's art collections, taking into account the responses to " Views of the Future".

- Operate the Museum's Partnership Programme, including development of the *"Sharing the Treasures – Cyfoeth Cymru Gyfan"* scheme and the development of the display of the Sutherland collection at St Davids.

- Continue to take forward measures to increase the Museum's income from commercial sources.

## 2. CORPORATE PLANNING

2.1. The "Guidance on Corporate Planning by Executive Assembly Sponsored Public Bodies" (CEO 02/02) sets out the Assembly Government's expectations for **Operational** and **Corporate Plans**. I would be grateful to receive both plans in line with the deadlines set out in your Management Statement and Financial Memorandum.

2.2. I am grateful for your support and co-operation in implementing my Culture Strategy ***"Creative Future: Cymru Greadigol"***, and I thank you for the work which the Museum carried out in 2002-03. In 2003-04, I would like the Museum to continue with the implementation of the Strategy by undertaking the 2003-04 action points as published together with any 2002-03 points which may be outstanding. I am also pleased that the National Museum continues to take an active part in the work of ***Cymru'n Creu***.

2.3. The Museum will wish to ensure that in its forward planning it has regard to ***Plan for Wales*** and ***A Winning Wales****,* which sets out the Assembly Government's strategic plan for the remainder of its first term and for the longer term.

2.4. I know that the Museum has been involved with City and County of Cardiff's bid for Cardiff to become ***European Capital of Culture 2008***. I wish the Museum to continue its support for the Cardiff bid.

## 3. PERFORMANCE INDICATORS/TARGETS

3.1. We have discussed Performance Indicators/Targets including:

| **Indicator** | **2002/03 Target** | **2003/04 Target** | **2004/05 Target** | **2005/06 Target** |
|---|---|---|---|---|
| Visitor Figures | 1,150,000 | 1,250,000 | 1,250,000 | 1,500,000 |
| Web-site Visits | 600,000 | 610,000 | 620,000 | 640,000 |
| % of space meeting appropriate standards for collection storage/ display | 57% | 57% | 57% | 90% |
| % of visitors from social classes C2, D, E | 37% | 38% | 39% | 40% |

3.2 The visitor figure target for 2003-04 has been increased by 100,000. This reflects the reopening of MWWI and the expansion of facilities at Big Pit, which should come on stream in the summer of 2003. The figure for 2005-06 reflects the proposed opening date for the Swansea Waterfront Museum.

3.3 The figure for web-site hits has been increased and I will expect the Museum to make great improvements in its web-site design. This will include an increased range of services (for example e-commerce), a wider range of digitised images and more links to other relevant web-sites.

3.4 The target for the percentage of storage space meeting appropriate standards remains static at 57% for 2003-04 and 2004-05. It is then planned to rise to 90% in 2005-06 on the completion of the extension to the Nantgarw Collections Centre.

3.5 The performance indicators in your operational plan will be monitored quarterly by my officials.

## 4. CORPORATE GOVERNANCE ISSUES

4.1. The National Museum will be guided by the range of strategies that have been agreed by the Welsh Assembly Government as they relate to its specific responsibilities.

4.2. The Spending Review which led to the Assembly Government's Expenditure Plans for 2003-6 was informed by key themes shared with the Chair/Presidents of ASPB's at their meeting with the First Minister on 27 June 2002. The Museum should consider its plans and programmes in the context of these themes, which are contained in the Annexe to this letter.

### Risk Management

4.3. For 2003-04, the Museum must have a fully operational risk management system in place and recognise that its operation will be audited by the Auditor General for Wales.

## 5. QUINQUENNIAL REVIEW

5.1. I will expect the Museum to continue to implement the recommendations agreed upon following its recent Quinquennial Review. These are set out in the Quinquennial Review Action Plan.

This letter will be published as part of the undertaking given in the National Assembly's Publication Scheme. Copies will also be made available to Members of the Assembly's Culture Committee.

I and my officials look forward to another year of working closely with you.

**Annex A**

## National Museums & Galleries of Wales

## Remit Letter 2003-04

## Key Messages of the Welsh Assembly Government

The priorities we propose are designed to move Wales towards becoming the **inclusive, sustainable and more equal country** that we have set as our goal. To do this we believe the focus in this spending round should be on:

- **ensuring public services take pro-active and preventative action that tackles problems early and put in more help where it is most needed**;
- **building our opportunities as a small smart nation by increasing skills and innovation and harnessing our creative strengths**;
- **engaging more people in work;**
- **strengthening our action to support communities;**
- **creating a bilingual Wales in which English and Welsh flourish; and**
- **reducing our ecological footprint – the demands Wales places on the earth's resources."**

The National Museums & Galleries of Wales should consider its plans and programmes in the context of the following key themes:

### Strategic Communication Plan

In all communication work, the Museum should take into account the wider policies of the Welsh Assembly Government and reflect how this will be done in your draft Strategic Communication Plan which will be submitted and discussed with the Welsh Assembly Government's Director of Communications before the Plan is finalised.

### Publicity/Branding

The Assembly Government is keen for the public to recognise the contribution which the Assembly Government makes through its ASPBs. It is not always apparent that a particular project or scheme has been funded by Assembly Government grant. Therefore, I expect to see a clear acknowledgement of the links between the National Museum and the Assembly Government, through clear branding – for example, use of logos at events – and acknowledgement of the source of funding.

## Welsh Language Mainstreaming

The Welsh Assembly Government is wholly committed to revitalising the Welsh language and creating a bilingual Wales. Our long-term strategy for the Welsh language is set out in ***Iaith Pawb***, the Assembly Government's National Action Plan for a Bilingual Wales. A key component in the Action Plan is our commitment to mainstreaming the Welsh language into the policy-making and service delivery processes of all Assembly Departments and all ASPBs. The Welsh language will be a permanent cross-cutting policy and we want to ensure that all the opportunities to work positively for the language are identified and acted upon.

Museums Branch of the Directorate of Culture, Sport and the Welsh Language will work with the National Museum to draw up an effective mainstreaming strategy. The sponsor division will be responsible for providing continuing advice and support on mainstreaming and for ensuring that the Museum puts the principles into practice.

The Museum is expected to plan and deliver in a way that is consistent with Welsh Assembly Government policy, as noted in "Iaith Pawb". This is a matter which I expect to be discussed at quarterly meetings with the sponsor division.

## Relocation Strategy

The Assembly Government recently published a new relocation strategy, which opens the way to a greater decentralisation of Assembly Government functions around Wales. Over the next five years the aim will be to increase the total number of Assembly Government jobs located outside Cardiff to 1,700, bringing positive economic benefits to more disadvantaged communities across Wales. The report also recommends that ASPBs should mirror the principal aim of locating jobs outside Cardiff.

The Assembly's relocation strategy should be a key consideration by all ASPBs in developing their estate strategies.

## Community Strategies

In strengthening action to support communities each ASPB is reminded of the commitment that it should engage with each local authority and its partners in preparing community strategies; and ensure that the emerging strategies are reflected in its own planning and programming.

## Communities First

The Welsh Assembly Government is committed to addressing social inclusion. Communities First is the Assembly's unique, flagship programme aimed at addressing poverty and social disadvantage in our most deprived areas in order to bring them up to the same living standards that are found in our better

off communities. The success of the programme is dependent on the targeting of all relevant public sector funding at Communities First areas, so you are being asked to ensure that your programmes take account of the need to give priority to activities within such areas.

**Biodiversity**

The Assembly has a number of duties under S.74 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 relating to the conservation of biodiversity. The Minister for Environment will shortly publish “Cymru Byw”, which sets out our proposals for implementing these duties. Our priorities include action to promote a wider public understanding of the importance of biodiversity and to enhance access in Wales to the practical skills and specialist expertise required for conservation action. I would like the Museum to contribute to the delivery of these priorities through the Wales Biodiversity Group (WBG), which is the forum of biodiversity partners in Wales.

**Rural Issues**

The Welsh Assembly Government is committed to promoting social, economic, environmental and cultural vitality in rural areas thereby allowing rural communities to prosper and adapt. ASPBs already play a key role here in that they make an essential contribution to rural areas, but this contribution needs to be quantified and monitored and we will be asking for information in this regard from you shortly. We are also keen for policies and programmes to be “rural proofed”, by that I mean that they are considered for the contribution that they make to the future of rural areas. Guidance and information about these requirements will be issued to ASPBs shortly under cover of a CEO letter.

**The Voluntary Sector**

The Assembly Government has a compact with the Voluntary Sector in Wales and has its own Voluntary Sector Scheme. I meet the Wales Council for Voluntary Action twice a year to discuss matters of interest. In line with these commitments, I urge you to continue to strengthen and maintain links with the voluntary sector wherever there is an opportunity for you to do so and to ensure that in developing policy and new initiatives you consider the contribution that the voluntary sector might be able to make.

**Partnership Working**

The Assembly Government looks to the National Museums & Galleries of Wales to liaise and co-operate with other Assembly Sponsored Public Bodies, especially the National Library of Wales, and other organisations in order to facilitate forward planning on matters of common interest and ensure that ASPBs co-ordinate their efforts for the greater good. This relates to linking

marketing and promotion with initiatives to boost the economy and profile of Wales, as well as the infrastructure in support of participation and success.

I would also encourage the Museum to continue to develop and improve partnerships with the private sector, particularly through fund-raising for the National Waterfront Museum Swansea, and contribute effectively to Cymru'n Creu.  It is also important that the Museum works closely with the Wales Tourist Board on the development of the Cultural Tourism Strategy and the South Wales Industrial Heritage Initiative.

Working together with the non-national museums, archives and libraries domains will be especially important in 2003-04 in preparation for the establishment of CyMAL from 1 April 2004.

**Equal opportunities and social disadvantage**

The Museum's plans should also reflect the Assembly Government's statutory responsibilities with regard to equal opportunities and tackling social disadvantage, and in particular, the priorities set out in its Sustainable Development Scheme.

**European funding**

The Museum is also reminded of the importance of European funding and is asked to make every effort to maximise its take up of available European funding sources.

**Jenny Randerson AM/AC**
Minister for Culture, Sport and the Welsh Language
Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Our ref:/Ein cyf: SF/JR/00051/03

Paul Loveluck CBE YH
Llywydd
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NP

Chwefror 2003

**LLYTHYR CYLCH GWAITH AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU 2003-04**

Mae'r llythyr hwn yn nodi cylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04. Bwriedir iddo ategu cynnwys a datblygiad Cynlluniau Gweithredol a Chorfforaethol AOCC.

## 1. CYLLIDEBAU

1.1. Nodir manylion cyllid AOCC gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer 2003-04 hyd 2005-06 yn y tablau isod. Telir y grant yn amodol ar gydymffurfio â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yr Amgueddfa.

**Costau Rhedeg**

| £000 | Cynlluniau 2003-04 | Cynlluniau Dangosol 2004-05 | Cynlluniau Dangosol 2005-06 |
|---|---|---|---|
| Costau Rhedeg | 17,882 | 17,882 | 17,882 |
| Incwm Refeniw | -958 | -958 | -958 |

1.2. Mae eich cyllideb costau rhedeg ar gyfer 2003-04 yn ystyried rhai o'r costau sydd eu hangen i fodloni cylch gwaith tâl AOCC. Mae'r ffigur costau rhedeg yn cynnwys £2,040,000 (90%) o'r £2,267,000 sydd eu hangen i fodloni'r cynnydd yng nghostau'r cylch gwaith tâl yn 2003-04. Bydd gofyn i AOCC ddarparu'r £227,000 yn ychwanegol o'r cyllidebau presennol.

1.3. Mae'r Amgueddfa wedi ailarfarnu ei ragolygon incwm refeniw ar gyfer y dyfodol a byddaf yn ystyried adlewyrchu hyn yn ffigurau terfynol y gyllideb.

1.4 Bydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y cylch gwaith tâl yn y dyfodol, uwchlaw'r hyn a nodir yn y tabl uchod yn cael ei ystyried yng Nghylchoedd Cynllunio Cyllidebol y dyfodol. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu hystyried ar sail lefel y cyfraniad y cytunwyd arno ar gyfer 2003/04. Ni fyddwn yn ystyried cynigion i leihau'r cyfraniad hwnnw.

1.5 Mae Gweinidogion wedi penderfynu y dylai Cadeiryddion ac Aelodau Cynghorau'r CCNC Diwylliannol dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu gwaith. Byddaf yn ysgrifennu atoch am hyn maes o law. Er mwyn bwrw ymlaen, bydd angen i'r cyrff Siarter Brenhinol geisio Siarteri diwygiedig, a bydd angen i'r cyrff hynny sy'n elusennau cofrestredig hefyd geisio cael cytundeb y Comisiwn Elusennau. Wrth gwrs, byddwn yn cynorthwyo ac yn cefnogi'r Amgueddfa gyda'r broses hon.

**Y Gronfa Ddiwylliant - Dyraniad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.**

| **£000** | **Cynlluniau 2003-04** | **Cynlluniau Dangosol 2004-05** | **Cynlluniau Dangosol 2005-06** |
|---|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf gros | 18,200 | 17,600 | 18,400 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -14,550 | -14,550 | -14,550 |
| **Cyfraniad cyfalaf net y Cynulliad** | **3,650** | **3,050** | **3,850** |

(ii) Gall ffigurau cyfalaf gros a derbyniadau cyfalaf newid pan fydd yr Amgueddfa yn ailfarnu'r rhagolygon hyn. Dylid nodi na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gyfraniad cyfalaf net yr Amgueddfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

(ii) Mae cyfraniad cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad o £3.650 miliwn yn 2003-04 wedi ei bennu fel a ganlyn:-
- Taliad digolledu am werthu WIMM : £1.5 miliwn
Grant Prynu Enghreifftiol : £1.075 miliwn
- Cyfalaf : £0.775 miliwn
- ymestyn Canolfan Casgliadau Nantgarw : £0.3 miliwn

(iii) Mae cyfraniad cyfalaf dangosol Llywodraeth y Cynulliad o £3.050 miliwn yn 2004-05 wedi ei bennu fel a ganlyn:-
Grant Prynu Enghreifftiol : £1.075 miliwn
- Cyfalaf : £0.775 miliwn
- ymestyn Canolfan Casgliadau Nantgarw : £1.2 miliwn

iv) Mae cyfraniad cyfalaf dangosol Llywodraeth y Cynulliad o £3.850 miliwn yn 2005-06 wedi ei bennu fel a ganlyn:-
Grant Prynu Enghreifftiol : £1.075 miliwn
- Cyfalaf : £0.775 miliwn
- ymestyn Canolfan Casgliadau Nantgarw : £2.0 miliwn

**Y Gronfa Ddiwylliant - Dibrisiant/Cost Cyfalaf**

| **£000** | **Cynlluniau 2003-4** | **Cynlluniau Dangosol 2004-05** | **Cynlluniau Dangosol 2005-06** |
|---|---|---|---|
| Dibrisiad/Cost Cyfalaf | 6,472 | 7,035 | 7,140 |

(i) Mae costau dibrisiant heblaw am arian a chostau cyfalaf yn symud i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) y Cynulliad o 1 Ebrill 2003 ymlaen.

(ii) Yn ddiweddar mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi newid sail cyfrifo cost cyfalaf. Byddwn yn eich hysbysu ynghylch y cyfansymiau newydd.

1.6. Mae'r ffigurau ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn ffigurau dangosol, gan nad oes modd i mi ragweld unrhyw benderfyniadau a allai gael eu gwneud yn y dyfodol gan Lywodraeth y Cynulliad mewn Cylchoedd Cynllunio Cyllidebol.

1.7. Dylai cais misol yr Amgueddfa am gymorth grant nodi manylion ar wahân ar gyfer yr holl gategorïau a nodir yn y tablau uchod. Os bydd ffigurau derbyniadau'r Amgueddfa yn cynnwys unrhyw elfen o gostau rhedeg neu dderbyniadau cyfalaf, dylid nodi hyn ar wahân hefyd.

**BLAENORIAETHAU**

1.8 Yn ogystal â bodloni'r ymrwymiadau cyfredol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol AOCC ar gyfer 2003-04 - 2005-06, a chyflawni'r canlyniadau cysylltiedig, dyma fy mlaenoriaethau penodol ar gyfer yr Amgueddfa:

- Cyflwyno cynllun prosiect cadarn ar gyfer datblygu Canolfan Casgliadau Nantgarw fel rhan o'ch Cynllun Gweithredu ar gyfer 2003-04. Bydd £300,000 o gyllid y Cynulliad ar gael ar gyfer y prosiect hwn yn 2003-04. Dylai'ch cynllun ar gyfer y prosiect ddangos gwerth ychwanegol buddsoddiad y Cynulliad, sef cyfanswm o £3.5 miliwn, hyd yn oed os na fydd cyllid o ffynonellau eraill yn cael ei wireddu.

- Cwblhau'r prosiectau cyfalaf ym Mhwll Mawr a MWWI ar amser ac o fewn y gyllideb.

- Parhau i ddatblygu prosiect yr Amgueddfa Glan Dwr yn Abertawe, gan ganolbwyntio ar godi cyllid trwy'r partneriaid yn y prosiect a'r sector preifat.

- Datblygu cynigion ar gyfer arddangos casgliadau celf yr Amgueddfa yn y dyfodol, gan ystyried yr ymatebion i "Golygon y Dyfodol".

- Gweithredu Rhaglen Partneriaeth yr Amgueddfa, gan gynnwys datblygu cynllun *"Sharing the Treasures - Cyfoeth Cymru Gyfan"* a datblygu arddangosfa casgliad Sutherland yn Nhyddewi.

- Parhau i fwrw ymlaen â mesurau i gynyddu incwm yr amgueddfa o ffynonellau masnachol.

## 2. CYNLLUNIO CORFFORAETHOL

2.1. Mae'r "Canllawiau ar Gynllunio Corfforaethol gan Gyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad" (CEO 02/02) yn disgrifio disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad o ran **Cynlluniau** Gweithredol **a Chorfforaethol.** Hoffwn dderbyn y ddau gynllun yn unol â'r dyddiadau a amlinellwyd yn eich Datganiad Rheoli a'ch Memorandwm Ariannol.

2.2. Rwy'n ddiolchgar am eich cymorth a'ch cydweithrediad i roi fy Strategaeth Diwylliant ***"Creative Future: Cymru Greadigol"***, ac am y gwaith a gyflawnwyd gan yr Amgueddfa yn 2002-03. Yn 2003-04, hoffwn i'r Amgueddfa barhau i roi'r Strategaeth ar waith trwy gyflawni'r camau gweithredu a gyhoeddwyd ar gyfer 2003-04 ynghyd ag unrhyw gamau ar gyfer 2002-03 sydd heb eu cyflawni. Rwy'n falch hefyd bod yr Amgueddfeydd Cenedlaethol yn parhau i chwarae rhan yng ngwaith ***Cymru'n Creu***.

2.3. Bydd yr Amgueddfa, wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn dymuno sicrhau ei bod yn ystyried ***Cynllun* i *Gymru a Cymru'n Ennill,*** sy'n amlinellu cynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweddill ei dymor cyntaf ac ar gyfer y tymor hirach.

2.4. Rwy'n ymwybodol bod yr Amgueddfa yn rhan o ymgyrch Dinas a Sir Caerdydd i fod yn ***Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008***. Dymunaf i'r Amgueddfa barhau i gefnogi ymgyrch Caerdydd.

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD/TARGEDAU

3.1. Rydym wedi trafod Dangosyddion Perfformiad/Targedau gan gynnwys:

| **Dangosydd** | **2002/03 Targed** | **2003/04 Targed** | **2004/05 Targed** | **2005/06 Targed** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Ymwelwyr | 1,150,000 | 1,250,000 | 1,250,000 | 1,500,000 |
| Ymwelwyr â'r Wefan | 600,000 | 610,000 | 620,000 | 640,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| % y lle sy'n bodloni'r safonau priodol ar gyfer storio/arddangos casgliadau. | 57% | 57% | 57% | 90% |
| % yr ymwelwyr o ddosbarthiadau cymdeithasol C2, D, E | 37% | 38% | 39% | 40% |

3.2 Mae cynnydd o 100,000 yn nharged nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2003-04. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd MWWI yn ailagor a'r gwaith o ehangu cyfleusterau Pwll Mawr a ddylai fod wedi ei gwblhau erbyn haf 2003. Mae'r nifer ar gyfer 2005-06 yn adlewyrchu'r dyddiad arfaethedig ar gyfer ailagor Amgueddfa Glan Dwr Abertawe.

3.3 Mae cynnydd yn nharged y wefan a byddaf yn disgwyl i'r Amgueddfa wella cynllun y wefan yn. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd yn y gwasanaethau sydd ar gael )er enghraifft e-fasnach), mwy o luniau digidol a mwy o gysylltiadau â gwefannau perthnasol eraill.

3.4 Mae'r targed ar gyfer canran y lle sydd ar gael i storio casgliadau sy'n bodloni'r safonau priodol yn aros ar 57% ar gyfer 2003-04 a 2004-05. Y bwriad wedyn yw codi'r targed i 90% yn 2005-06 pan fydd yr estyniad i Ganolfan Casgliadau Nantgarw wedi ei gwblhau.

3.5 Bydd y dangosyddion perfformiad yn eich cynllun gweithredol yn cael eu monitro bob chwarter gan fy swyddogion.

## 4. MATERION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

4.1. 8.1 Bydd amrediad o strategaethau sydd wedi eu cytuno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn llywio gwaith yr Amgueddfa Genedlaethol, gan eu bod yn berthnasol i'w chyfrifoldebau penodol.

4.2. Defnyddiwyd y themâu allweddol a gyhoeddwyd yng nghyfarfod y Prif Weinidog â Chadeiryddion/Llywyddion y CCNC ar 27 Mehefin i ategu'r Adolygiad o Wariant a oedd yn sail ar gyfer Cynlluniau Gwariant Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2003-06. Dylai'r Amgueddfa ystyried ei chynlluniau a'i rhaglenni yng nghyd-destun themâu allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi eu rhestru yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

### Rheoli Risg

4.3. Ar gyfer 2003-04, mae'n rhaid i'r Amgueddfa fod wedi rhoi system rheoli risg ar waith. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r system hon.

## 5. ADOLYGIAD PUM MLYNEDD

5.1. Byddaf yn disgwyl i'r Amgueddfa barhau i roi'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn ddiweddar, yn dilyn yr adolygiad pum mlynedd, ar waith. Mae'r rhain wedi eu nodi yng Nghynllun Gweithredu'r Adolygiad Pum Mlynedd.

Cyhoeddir y llythyr hwn fel rhan o’r ymrwymiad a wnaethpwyd yng Nghynllun Cyhoeddiadau’r Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddir copïau o'r llythyr hwn i Aelodau Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad hefyd.

Rwyf i a'm swyddogion yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio agos â chi.

**Atodiad A**

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

**LLYTHYR CYLCH GORCHWYL 2003-04**

**Negeseuon Allweddol Llywodraeth y Cynulliad**

Nod y blaenoriaethau a gynigir yw datblygu Cymru yn **wlad gynhwysol, gynaliadwy a mwy cyfartal** er mwyn bodloni ein targedau. Er mwyn gwneud hyn credwn y dylai'r cylch gwariant hwn ganolbwyntio ar:

- **sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd camau blaengar a rhwystrol sy'n ymdrin â phroblemau yn gynnar ac sy'n cyfrannu cymorth ychwanegol lle mae ei angen fwyaf**;

- **cynyddu ein cyfleoedd fel cenedl fechan a blaengar drwy gynyddu sgiliau, hyrwyddo arloesedd a manteisio ar ein cryfderau creadigol**;

- **annog rhagor o bobl i weithio;**

- **cryfhau ein camau gweithredu i gefnogi cymunedau;**

- **creu Cymru ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu; a**

- **Lleihau ein hôl ecolegol –defnydd Cymru o adnoddau'r ddaear.**

Dylai Amgueddfeydd ac Orielau Cymru ystyried ei gynlluniau a'i raglenni yng nghyd-destun y themâu allweddol canlynol:

**Cynllun Cyfathrebu Strategol**

Mewn unrhyw waith cyfathrebu, dylai'r Amgueddfa ystyried polisïau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adlewyrchu'r ffordd y caiff hyn ei wneud yn eich Cynllun Cyfathrebu Strategol drafft a fydd yn cael ei gyflwyno i Gyfarwyddwr Cyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w drafod cyn llunio'r Cynllun terfynol.

**Cyhoeddusrwydd/Brandio**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud drwy'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Nid yw bob amser yn glir mai grant Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu'r arian ar gyfer prosiect neu gynllun penodol. Felly, rwy'n disgwyl gweld cydnabyddiaeth glir o'r cysylltiadau rhwng yr Amgueddfa Genedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad, trwy gyfrwng brandio clir - er enghraifft, defnyddio logos mewn digwyddiadau - a chydnabod ffynhonnell y cyllid.

**Normaleiddio'r Iaith Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Pennir ein strategaeth hir dymor ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn ***Iaith Pawb***, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Ddwyieithog. Un o elfennau allweddol y Cynllun Gweithredu yw ein hymrwymiad i normaleiddio'r iaith Gymraeg yng ngwaith holl Adrannau'r Cynulliad a'r CCNC wrth lunio polisïau a chyflwyno gwasanaethau. Bydd yr Iaith Gymraeg yn bolisi trawsbynciol a pharhaol a hoffem sicrhau bod yr holl gyfleoedd i weithredu'n gadarnhaol dros yr iaith yn cael eu nodi a'u cyflawni.

Bydd Cangen Amgueddfeydd y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn gweithio gyda'r Amgueddfa Genedlaethol i lunio strategaeth effeithiol ar gyfer y gwaith. Bydd yr is-adran nawdd yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth parhaus ar normaleiddio a sicrhau bod yr Amgueddfa yn gweithredu'r egwyddorion.

Disgwylir i'r Amgueddfa gynllunio a gweithredu yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodir yn "Iaith Pawb". Mae hyn yn fater y byddaf yn disgwyl i chi ei drafod gyda'r adran nawdd yn y cyfarfodydd chwarterol.

**Y Strategaeth Adleoli**

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar strategaeth adleoli newydd, sy'n ein galluogi ni i ddatganoli mwy o swyddogaethau Llywodraeth y Cynulliad ledled Cymru. Dros y pum mlynedd nesaf, y nod fydd cynyddu nifer swyddi Llywodraeth y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd i 1,700 gan ddod â manteision economaidd cadarnhaol i fwy o gymunedau difreintiedig ledled Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell bod y CCNC yn cadw at y nod allweddol o leoli swyddi y tu allan i Gaerdydd.

Dylai'r holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ystyried strategaeth adleoli'r Cynulliad o ddifrif wrth ddatblygu eu strategaethau ystadau.

**Strategaethau Cymunedol**

O ran cryfhau camau gweithredu i gefnogi cymunedau, atgoffir pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch yr ymrwymiad i gysylltu â’r holl awdurdodau lleol a’u partneriaid wrth baratoi strategaethau cymunedol; a sicrhau yr adlewyrchir y strategaethau a lunnir yn eu cynlluniau a’u rhaglenni.

**Cymunedau'n Gyntaf**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol. Cymunedau'n Gyntaf yw rhaglen unigryw ac arloesol y Cynulliad sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, er mwyn codi eu safonau

byw i fod fel safonau byw rhai o'n cymunedau mwy cyfoethog. Er mwyn i'r rhaglen lwyddo, dylid cyfeirio'r holl arian sector cyhoeddus perthnasol at ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Gofynnir i chi sicrhau felly bod eich rhaglenni'n ystyried yr angen i roi blaenoriaeth i weithgareddau o fewn yr ardaloedd hyn.

**Bioamrywiaeth**

Mae gan y Cynulliad nifer o ddyletswyddau o dan Adran 74, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mewn perthynas â gwarchod bioamrywiaeth. Cyn bo hir, bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn cyhoeddi "Cymru Byw", sy'n disgrifio'n cynigion ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn. Ymhlith ein blaenoriaethau mae gweithredu i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth ymhlith y cyhoedd, a sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth arbenigol sydd eu hangen ar gyfer rhoi cadwraeth ar waith yng Nghymru. Hoffwn i'r Amgueddfa gyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau hyn trwy Grŵp Bioamrywiaeth Cymru, sef fforwm y partneriaid bioamrywiaeth yng Nghymru.

**Materion Gwledig**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hybu egni cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardaloedd gwledig, ac o ganlyniad, caniatáu i gymunedau gwledig ffynnu ac addasu. Mae cyfraniad CCNC eisoes yn allweddol yn hyn o beth. Mae angen mesur a monitro'r cyfraniad hwn ac fe fyddwn yn gofyn am wybodaeth gennych am hynny yn fuan. Rydym hefyd yn awyddus i bolisïau a rhaglenni fynd trwy "brawf gwledig". Hynny yw, eu mesur ar sail eu cyfraniad i'r economi wledig. Caiff canllawiau a gwybodaeth am y gofynion hyn eu hanfon i'r CCNC cyn bo hir, ynghyd â llythyr at y Prif Swyddog Gweithredol.

**Y Sector Gwirfoddol**

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gontract â'r sector gwirfoddol yng Nghymru ac mae ganddo'i Gynllun Sector Gwirfoddol ei hun. Rwy'n cwrdd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod materion o ddiddordeb. Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, rwy'n eich annog i barhau i gryfhau a chynnal cysylltiadau â'r sector gwirfoddol lle bo hynny'n bosibl a sicrhau eich bod yn ystyried cyfraniad posibl y sector gwirfoddol wrth i chi ddatblygu polisïau a mentrau newydd.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru gysylltu ac i gydweithredu â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn enwedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chyrff eraill er mwyn hwyluso blaengynllunio ar faterion o ddiddordeb cyffredin a sicrhau bod CCNC yn cydlynu eu hymdrechion er mwyn llwyddo. Mae hyn yn ymwneud yn

bennaf â chysylltu marchnata a hyrwyddo gyda mentrau i hybu economi a phroffil Cymru yn ogystal â'r isadeiledd sy'n cynnal cyfranogiad a llwyddiant.

Byddwn hefyd yn annog yr Amgueddfa i barhau i ddatblygu a gwella partneriaethau â'r sector preifat, yn benodol trwy godi arian ar gyfer yr Amgueddfa Glan Dwr Genedlaethol yn Abertawe, a gwneud cyfraniad effeithiol i Cymru'n Creu. Mae hefyd yn bwysig bod yr Amgueddfa yn cydweithio'n agos â Bwrdd Croeso Cymru ar ddatblygu'r Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol a Menter Treftadaeth Ddiwydiannol De Cymru.

Bydd cydweithio gydag amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol, archifau a llyfrgelloedd yn arbennig o bwysig yn 2003-04 er mwyn paratoi ar gyfer sefydlu CyMAL ar 1 Ebrill 2004.

**Cyfle Cyfartal ac Anfantais Gymdeithasol**

Dylai cynlluniau'r Amgueddfa hefyd adlewyrchu cyfrifoldebau statudol Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â chyfle cyfartal a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, ac yn arbennig, y blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy.

**Cyllid Ewrop**

Hoffwn atgoffa'r Amgueddfa o bwysigrwydd arian o Ewrop a gofynnir iddo ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r ffynonellau cyllid Ewropeaidd.